**EITEM 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **DYDDIAD** | 24 MEHEFIN 2016 |
| **TEITL** | DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **PWRPAS** | DERBYN A CHYMERADWYO Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL |
| **AWDUR** | Dafydd Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio Dros Dro |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

1.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor ar ôl ystyried y gwahanol gytundebau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

1.3 Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.